TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Basic Vehicle Maintenance / Restoration Level Entry

Yn gryno

Os ydych yn awyddus i weithio ar geir a cherbydau eraill, naill ai fel gweithgaredd hamdden neu fel gyrfa, y cwrs hwn yw'r cwrs cychwynnol i chi. Byddwch yn dysgu am egwyddorion sylfaenol cerbydau modur mewn awyrgylch gweithdy cyfeillgar braf, dros gyfnod o naw wythnos.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

...rhywun sy'n awyddus i weithio ar geir a cherbydau eraill, naill ai fel gweithgaredd hamdden neu gychwyn gyrfa.

...rhai sydd eisiau datblygu sgiliau sylfaenol cerbydau modur.

Cynnwys y cwrs

Bydd angen unigolion awyddus, brwdfrydig sy'n dangos diddordeb mewn cerbydau modur, a bydd cyfle i chi ddysgu am yr holl systemau sy'n creu cerbydau modur clasurol a modern gan

gynnwys:

Systemau brecio
Systemau crogiant
Systemau tanwydd
Teiars
Systemau trawsyriant
Systemau aerdymheru
Systemau trydanol gan gynnwys ABS a SRS
Gwasanaethu
Systemau taniad
Gofal cerbyd
Egsosts
Systemau rheolaeth injan
Addasiadau cerbyd

Byddwch yn cael eich asesu drwy gyfres o asesiadau ymarferol a byddwch yn derbyn tystysgrif coleg ar ôl cwblhau. Nesaf, gallech symud ymlaen i gwrs llawn amser Lefel Mynediad neu Lefel 1.

Gofynion Mynediad

Nid oes unrhyw ofynion mynediad ffurfiol ar gyfer y cwrs hwn.

Gwybodaeth Ychwanegol

Yn ystod y cwrs, byddwch angen Offer Amddiffyn Personol addas.